**Gwasanaeth Democrataidd**
**Democratic Service**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG
# CENTRAL LICENSING SUB-COMMITTEE

Dyddiad ac Amser / Date and Time

**DYDD MERCHER, GORFFENNAF 16eg 2014**

**WEDNESDAY, 16th of JULY 2014**

Lleoliad / Location:

**YSTAFELL FRONDEG ROOM**
**SWYDDFEYDD Y CYNGOR / COUNCIL OFFICES**
**PWLLHELI**

**1:00pm**

Pwynt Cyswllt / Contact Point

**LOWRI HAF EVANS (01286) 679 878**

lowrihafevans@gwynedd.gov.uk

*Dosbarthwyd/Distributed: 11.7.14*

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU

# LICENSING SUB-COMMITTEE

**Aelodaeth / Membership (3)**

Y Cynghorwyr / Councillors

Eryl Jones Williams (Cadeirydd/Chairman)

Annwen Hughes

Angela Russell

W Tudor Owen (wrth gefn/reserve)

**Aelod Lleol / Local Member**

Cynghorydd/Councillor

Jason Humphreys,
(Ward Dwyrain / East Porthmadog)

Peter Read,
(Ward Abererch)

# RHAGLEN

**1. CROESO ac YMDDIHEURIADAU**

**Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.**

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

**Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.**

**3. MATERION BRYS**

**Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.**

**4. CAIS AM DRWYDDED EIDDO O'R NEWYDD:**

**SAVERS**
**111 – 113 Stryd Fawr,**
**Porthmadog**
**LL49 9HA**

**Ystyried y cais uchod**
**(papur glas)**

**5. CAIS AM DRWYDDED EIDDO O'R NEWYDD:**

**PEG AND MALLET',**
**Llwyn Ffynnon,**
**Y Ffor,**
**Pwllheli**
**LL53 6UY**

**Ystyried y cais uchod**
**(papur pinc)**

# AGENDA

1. **WELCOME and APOLOGIES**

   **To receive any apologies for absence.**

2. **DECLARATION OF PERSONAL INTEREST**

   **To receive any declaration of personal interest.**

3. **URGENT ITEMS**

   **To note any items that is a matter of urgency in the view of the Chairman for consideration.**

4. **APPLICATION FOR A PREMISES LICENCE:**

   **SAVERS**
   **111 – 113 High Street,**
   **Porthmadog**
   **LL49 9HA**

   **To consider the above application**
   **(Blue paper)**

5. **APPLICATION FOR A PREMISES LICENCE**

   **PEG AND MALLET',**
   **Llwyn Ffynnon,**
   **Y Ffor,**
   **Pwllheli**
   **LL53 6UY**

   **To consider the above application**
   **(Pink  paper)**

## TREFN MEWN GWRANDAWIADAU I WYRO TRWYDDED

1. Adroddiad ysgrifenedig gan yr Adain Trwyddedu gydag argymhelliad.

2. Gall aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.

3. Ar ddisgresiwn y Cadeirydd gall yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.

4 Gall yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd ymhelaethu ar ei gais ac yna galw tystion

5. Gall aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd

6. Gwahoddiad i bob ymgynghorai gefnogi sylwadau ysgrifenedig

7. Gall aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgynghorai.

8. Ar ddisgresiwn y Cadeirydd, gall cynrychiolydd y Cyngor a'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd grynhoi eu hachos.

Atgoffir pawb o'r pedwar egwyddor o'r Ddeddf Trwyddedu 2003 fydd angen ei ystyried, sef:

1. **Rhwystro Trosedd ac Anrhefn;**
2. **Diogelwch y Cyhoedd;**
3. **Rhwystro Niwsans Cyhoeddus; ac**
4. **Amddiffyn plant rhag niwed:**

## PROCEDURES FOR LICENSING VARIATION HEARINGS

1. A written report will be presented by the Licensing Section (with recommendation).

2. Members of the Sub-committee may ask questions of the Council's representative.

3. At the Chairman's discretion the applicant and/or his representative may ask questions of the Council's representative.

4. The applicant and/or his representative may expand upon the application and call witnesses

5. Members of the Sub-committee may ask questions of the applicant and/or his representative

6. There will be an invitation for each consultee to support any written observations

7. Members of the Sub-committee may ask questions of the consultees.

8. At the Chairman's discretion the Council's representative and the applicant or his representative may summarise their case.

All are reminded of the four principles of the Licensing Act 2003 to be considered in all deliberations, namely:

1) **Crime and Disorder Prevention;**
2) **Public Safety;**
3) **Public Nuisance Prevention; and**
4) **Protection of Children from Harm.**

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **IS -BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG** |
| **DYDDIAD:** | **16 GORFFENNAF 2014** |
| **TEITL:** | **CAIS AM DRWYDDED EIDDO – SAVERS, 111-113 STRYD FAWR, PORTHMADOG** |
| **PWRPAS:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH RHEOLEIDDIO** |

## CAIS

Atodir cais am drwydded eiddo o'r newydd ar gyfer Savers, 111-113 Stryd Fawr, Porthmadog LL49 9HH gan Savers Health and Beauty Limited, Hutchinson House, 5 Hester Road, Battersea, London SW11 4AN.

Mae swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu yn fodlon fod tystiolaeth ddigonol fod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion y Ddeddf Drwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol ac felly yn ddilys. Oherwydd bod sylwadau sydd yn berthnasol i'r amcanion trwyddedu wedi ei wneud ar y cais; fe gyflwynir y cais er ystyriaeth yr Is - Bwyllgor hwn.

Gwneir y cais mewn perthynas â chyflenwi alcohol oddi ar yr eiddo. Gweler y tabl amgaeedig am fanylion yr oriau arfaethedig.

| Gweithgareddau trwyddedig/ Licensable Activities | Oriau/Hours |
|---|---|
| **Oriau Agor / Opening Hours: *** | Dydd Llun/Monday 08:30-17:30<br>Dydd Mawrth/Tuesday 08:30-17:30<br>Dydd Mercher/Wednesday 08:30-17:30<br>Dydd Iau/Thursday 08:30-17:30<br>Dydd Gwener/Friday 08:30-17:30<br>Dydd Sadwrn/Saturday 08:30-17:30<br>Dydd Sul/Sunday 10:00-16:00 |
| **Cyflenwi Alcohol/Supply of Alcohol** - Oddi ar yr Eiddo/ Off Premises | Dydd Llun/Monday 08:30-17:30<br>Dydd Mawrth/Tuesday 08:30-17:30<br>Dydd Mercher/Wednesday 08:30-17:30<br>Dydd Iau/Thursday 08:30-17:30<br>Dydd Gwener/Friday 08:30-17:30<br>Dydd Sadwrn/Saturday 08:30-17:30<br>Dydd Sul/Sunday 10:00-16:00 |

*** Bwriadir agor o 08:00 hyd 19:00 yn ystod Mehefin , Gorffennaf ac Awst. Bwriedir agor tan 20:00 yn ystod mis Rhagfyr.**

## Mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu

- Gweithredir system Teledu Cylch Cyfyng
- Mesurau diogelwch tan mewn lle
- Cedwir cofnodion gwrthod gwerthu alcohol
- Bwriedir gweithredu cynllun 'Challenge 25' a gofyn am brawf oedran, a chardiau adnabod .
- Rhoddir hyfforddiant i staff er mwyn eu cynorthwyo i wrthod gwerthu alcohol i rai nad ydynt yn gallu dangos cerdyn adnabod neu brawf oedran.

Gweler manylion llawn y mesurau a argymhellir yn adran **M** o'r cais

## YMGYNGHORIAD

Fe ymgynghorwyd ar y cais, ac fe dderbyniwyd ymatebion fel a ganlyn -

| YMATEBION | SYLWADAU |
|---|---|
| Aelod lleol | E bost - gwrthwynebiad |
| Cyngor Tref | Llythyr – gwrthwynebiad |
| Heddlu Gogledd Cymru | 1 e bost - dim gwrthwynebiad |

**Sylwadau - aelod lleol.**

Gwrthwynebir y cais mewn perthynas â'r amcanion trwyddedu o

- Atal trosedd ac anrhefn
- Diogelu plant rhag niwed

Cyfeirir at y ffaith fod Dwyrain Porthmadog yn dioddef lefelau troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol uchaf yn Nwyfor a Meirionnydd; a'i fod o'r farn fod argaeledd alcohol rhad i'w yfed oddi ar yr eiddo yn un o'r prif ffactorau sy'n arwain at hyn.

**Gwrthwynebiad – Cyngor Tref Porthmadog**

Derbyniwyd gwrthwynebiad ar y cais gan Gyngor Tref Porthmadog yn cwestiynu'r angen i gael siop arall yn y Dref sydd yn gwerthu alcohol.

Gweler y manylion llawn y sylwadau a dderbyniwyd ynghlwm a'r adroddiad.

## ARGYMHELLIAD

Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried y cais yn unol â gofynion y Ddeddf Trwyddedu 2003.

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **IS -BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG** |
| **DYDDIAD:** | **16 GORFFENNAF 2014** |
| **TEITL:** | **CAIS AM DRWYDDED EIDDO – PEG AND MALLET, LLWYN FFYNNON, Y FFOR.** |
| **PWRPAS:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH RHEOLEIDDIO** |

**<u>CAIS</u>**

Atodir cais am drwydded eiddo o'r newydd ar gyfer Peg & Mallet, Llwyn Ffynnon, Y Ffor, Pwllheli, LL53 6UY gan Mr Christopher Newsham o'r un cyfeiriad.

Mae swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu yn fodlon fod tystiolaeth ddigonol fod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion y Ddeddf Drwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol ac felly yn ddilys. Oherwydd bod sylwadau sydd yn berthnasol i'r amcanion trwyddedu wedi ei wneud ar y cais; fe gyflwynir y cais er ystyriaeth yr Is - Bwyllgor hwn.

Gwneir y cais mewn perthynas â chyflenwi alcohol, cerddoriaeth wedi ei recordio, a cherddoriaeth fyw. Gweler y tabl amgaeedig am fanylion yr oriau arfaethedig.

| **Gweithgareddau trwyddedig/ Licensable Activities** | **Oriau/Hours** |
|---|---|
| **Oriau Agor / Opening Hours:** | Dydd Llun/Monday 12:00-23:30<br>Dydd Mawrth/Tuesday 12:00-23:30<br>Dydd Mercher/Wednesday 12:00-23:30<br>Dydd Iau/Thursday 12:00-23:30<br>Dydd Gwener/Friday 12:00-23:30<br>Dydd Sadwrn/Saturday 12:00-23:30<br>Dydd Sul/Sunday 12:00-23:30 |
| **Cerddoriaeth Fyw/Live Music** - Dan Do ac Awyr Agored/Indoors and Outdoors | Dydd Llun/Monday 19:00-22:30<br>Dydd Mawrth/Tuesday 19:00-22:30<br>Dydd Mercher/Wednesday 19:00-22:30<br>Dydd Iau/Thursday 19:00-22:30<br>Dydd Gwener/Friday 19:00-22:30<br>Dydd Sadwrn/Saturday 19:00-22:30<br>Dydd Sul/Sunday 19:00-22:30 |
| **Cerddoriaeth wedi'i Recordio/Recorded Music -** Dan Do ac Awyr Agored/Indoors and Outdoors | Dydd Llun/Monday 19:00-22:30<br>Dydd Mawrth/Tuesday 19:00-22:30<br>Dydd Mercher/Wednesday 19:00-22:30<br>Dydd Iau/Thursday 19:00-22:30<br>Dydd Gwener/Friday 19:00-22:30<br>Dydd Sadwrn/Saturday 19:00-22:30<br>Dydd Sul/Sunday 19:00-22:30 |
| **Cyflenwi Alcohol/Supply of Alcohol** - Ar ac Oddi ar yr Eiddo/On and Off Premises | Dydd Llun/Monday 12:00-23:00<br>Dydd Mawrth/Tuesday 12:00-23:00<br>Dydd Mercher/Wednesday 12:00-23:00<br>Dydd Iau/Thursday 12:00-23:00<br>Dydd Gwener/Friday 12:00-23:00<br>Dydd Sadwrn/Saturday 12:00-23:00<br>Dydd Sul/Sunday 12:00-23:00 |

**Mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu**

- Bwriedir cydymffurfio gyda gofynion Iechyd a Diogelwch a Diogelwch a Diogelwch Tan
- Dim ond gwersyllwyr sydd yn defnyddio safle carafanau Llwyn Fynnon fydd yn defnyddio'r eiddo trwyddedig arfaethedig; ac fe fydd camymddwyn yn arwain at unigolion yn cael hel o'r safle
- Mae gan y Safle bolisi llym mewn perthynas â sŵn; ni chaniateir sŵn ar ôl 23:00; ac fe fydd yr eiddo trwyddedig yn cau ar ôl 23:00
- Bwriedir gweithredu cynllun 'Challenge 25' a gofyn am brawf oedran, a chardiau adnabod .

Gweler manylion llawn y mesurau a argymhellir yn adran **M** o'r cais

**YMGYNGHORIAD**

Fe ymgynghorwyd ar y cais, ac fe dderbyniwyd ymatebion fel a ganlyn -

| **YMATEBION** | **SYLWADAU** |
|---|---|
| Trigolion lleol | 123 o lythyrau ac e byst yn gwrthwynebu |
| Cyngor Cymuned | Llythyr – gwrthwynebiad |
| Heddlu Gogledd Cymru | 1 e bost - dim gwrthwynebiad , sylwadau |
| Gwasanaeth Tan ac Achub | Llythyr - sylwadau |
| | |

**Sylwadau – Cyngor Cymuned Llannor**

Derbyniwyd gwrthwynebiad ar y cais gan Gyngor Cymuned Llannor; mewn perthynas a'r amcanion trwyddedu o

- Atal niwsans cyhoeddus
- Diogelwch y cyhoedd.

Datganir pryder fod y cais yn gofyn am yr hawl i chware cerddoriaeth tu mewn a thu allan i'r eiddo.

Mae'r llythyr hefyd yn manylu ar faterion Cynllunio; ni ellir ystyried materion cynllunio mewn perthynas â chais o dan y Ddeddf Drwyddedu 2003

**Gwrthwynebiad - preswylwyr cyfagos**

Derbyniwyd 123 o lythyrau ac e-byst yn gwrthwynebu'r cais , yn bennaf ar sail yr amcanion trwyddedu o

- Atal niwsans cyhoeddus
- Diogelwch y cyhoedd

Nodir yn llythyrau rhai o'r preswylwyr fod sŵn yn cario o'r safle eisoes ar adegau yn hwyr yn y nos; Ac y byddai caniatáu'r drwydded yn achosi mwy o broblemau mewn perthynas â llygredd sŵn.

Mae'r trigolion hefyd yn bryderus am agweddau diogelwch y cyhoedd gan fod y safle ar ochr y brif ffordd heb balmant.
Atodir detholiad o'r llythyrau a dderbyniwyd ynghyd a manylion cyfeiriadau'r holl o'r ymatebwyr.

**Sylwadau'r Heddlu**

Nid oes gan yr Heddlu dystiolaeth i wrthwynebu'r cais; ac fe nodir fod yr ymgeisydd wedi cadarnhau wrth yr Heddlu fod y gweithgareddau trwyddedig arfaethedig yn gyfyngedig i ddefnyddwyr y safle carafanau yn unig. Nodir yn ogystal fod yr ymgeisydd wedi cytuno i gael amod ar y drwydded mewn perthynas â Theledu Cylch Cyfyng.

**Sylwadau Gwasanaeth Tan ac Achub**

Derbyniwyd llythyr yn cadarnhau na fyddai'r Gwasanaeth Tan yn gwrthwynebu'r cais am drwydded; ac fe geir sylwadau a manylion y llythyr parthed ffigyrau niferoedd sydd yn addas ar gyfer yr eiddo.

Gweler y manylion llawn y sylwadau a dderbyniwyd ynghlwm a'r adroddiad.

**ARGYMHELLIAD**

Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried y cais yn unol â gofynion y Ddeddf Trwyddedu 2003.